## Beth yw Proffil Un Dudalen?

Gellir llunio Proffil Un Dudalen gyda chi neu'ch plentyn cyn neu yn ystod y Cyfarfod sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn. Nod y Proffil Un Dudalen yw rhoi cipolwg cadarnhaol o'ch plentyn, gan gynnwys: Beth sy'n wych am eich plentyn, beth sy'n bwysig i'ch plentyn a sut allwn ni ei gefnogi?

Gellir datblygu Proffil Un Dudalen ymhellach ac ychwanegu gwybodaeth ato yn dilyn y Cyfarfod sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn. Gellir llunio Proffil Un Dudalen o ganlyniad i'r Cyfarfod sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn hefyd.

## A fydd fy mhlentyn yn cael Cynllun Datblygu Unigol os bydd yr ysgol yn cynnal Cyfarfod sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn?

Cynhelir Cyfarfod neu Adolygiad sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn gan yr ysgol neu'r Awdurdod Lleol er mwyn rhoi cynllun ar waith i gefnogi eich plentyn. Nid proses i'w wneud I'R plentyn yw'r dull Canolbwyntio ar yr Unigolyn ac nid yw'n gynllun, templed na dogfen statig.

Gellir defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn y Cyfarfod neu'r Adolygiad sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn i lywio ystod o gynlluniau fel Cynllun Gofal Iechyd Unigol, Proffil Un Dudalen neu Gynllun Datblygu Unigol.

Caiff yr holl gynlluniau eu hadolygu gyda chi a'ch plentyn o leiaf unwaith y flwyddyn neu cyn hynny os bydd newid sylweddol ym mywyd eich plentyn.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau mewn perthynas â Chyfarfodydd sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, siaradwch ag athro/athrawes eich plentyn neu Gydlynydd ADY yr ysgol.**

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

**GWYBODAETH I RIENI / GOFALWYR**

# Canllaw ar GYFARFODYDD SY'N CANOLBWYNTIO AR YR UNIGOLYN

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

> "Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yw'r broses barhaus o wrando ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn nawr ac yn y dyfodol, gyda theulu, ffrindiau a gweithwyr proffesiynol yn cydweithio i sicrhau bod hynny'n digwydd."

## Beth yw Dull sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn?

- Mae'n ystyried dymuniadau, barn a dyheadau'r plentyn
- Mae'r ffocws ar y plentyn
- Mae'n ystyried yr unigolyn cyfan ac nid dim ond yr hyn na all ei wneud neu ei ddiagnosis
- Mae'r plentyn a'i rieni/gofalwyr wrth wraidd y gwaith o gynllunio a gwneud penderfyniad.
- Mae'n cynnwys pawb sy'n byw, yn gweithio ac yn treulio amser gyda'r plentyn/person ifanc (y teulu, gweithwyr iechyd, cylch chwarae, addysg, gofal cymdeithasol – dull amlasiantaethol)
- Mae'n ymwneud â gwrando, arsylwi a dysgu yn barhaus

## Pryd/pam y byddai'r ysgol yn fy ngwahodd i a'm plentyn i Gyfarfod sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn?

Gall ysgol neu Awdurdod Lleol drefnu Cyfarfod sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn er mwyn casglu gwybodaeth gan bawb sy'n ymwneud â chefnogi eich plentyn. Gall hyn fod i gefnogi ei anghenion gofal iechyd, addysgol neu les yn yr ysgol.

Ar y cyd, gellid gwneud penderfyniad o ran a oes gan eich plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n gofyn am Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol neu a oes angen gwneud atgyfeiriadau priodol.

## Beth sy'n digwydd cyn y Cyfarfod/Adolygiad sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn?

Bydd y person sy'n arwain y cyfarfod yn:
- Gwneud yn siŵr eich bod chi a'ch plentyn yn rhan o'r broses
- Gwahodd gweithwyr proffesiynol perthnasol i chwarae rhan weithredol
- Trefnu man cyfarfod addas
- Casglu gwybodaeth
- Ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych

Cyn y cyfarfod, mae angen i bawb ystyried y cwestiynau canlynol:
- Beth ydym ni'n ei hoffi a'i edmygu am y plentyn?
- Beth sy'n bwysig i'r plentyn?
- Beth sy'n gweithio?
- Beth sydd ddim yn gweithio?
- Beth sy'n bwysig i'r plentyn nawr ac yn y dyfodol

## Beth sy'n digwydd mewn Cyfarfod sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn?

Bydd y person sy'n arwain y cyfarfod yn ceisio gwneud i bawb deimlo eu bod yn cael croeso. Efallai y bydd te, coffi, bisgedi a cherddoriaeth yn chwarae. Efallai y bydd ffotograffau neu sioe sleidiau o'ch plentyn ar y wal i bawb eu gweld. Bydd y cyfarfod mor rhyngweithiol â phosibl a bydd pawb yn cael cyfle cyfartal i gyfrannu. Efallai y gwelwch ddarnau mawr o bapur gyda'r penawdau canlynol arnynt...




Caiff yr holl wybodaeth hon ei thrafod yn y cyfarfod a'i defnyddio i roi Cynllun Gweithredu ar waith i gefnogi eich plentyn yn yr ysgol.